## TABL CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **CYFLWYNIAD** | **4** |
| **2.0** | **AMCANION Y GWASANAETH** | **5** |
| 2.1 | Nod | 5 |
| 2.2 | Amcanion | 5 |
| 2.3 | Amcanion Corfforaethol | 6 |
| 2.4 | Mesurau Monitro Perfformiad | 8 |
| **3.0** | **CEFNDIR** | **8** |
| 3.1 | Proffil Gwynedd | 8 |
| 3.2 | Strwythur y Sefydliad a Llinellau Adrodd | 9 |
| 3.3 | Sgôp y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd | 10 |
| 3.4 | Gwasanaethau / Partneriaid Allanol Arbenigol | 12 |
| 3.5 | Lleoliad y Gwasanaethau | 12 |
| 3.6 | Gofynion ar yr Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch | 12 |
| 3.7 | Polisi Gorfodaeth | 13 |
| **4.0** | **DARPARU'R GWASANAETH** | **14** |
| 4.1 | Ymyriadau Mewn Eiddo Bwyd | 14 |
| 4.2 | Ymyriadau Hylendid Mewn Cynhyrchwyr Cynradd | 15 |
| 4.3 | Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol | 15 |
| 4.4 | Rhaglen Ymyrraeth Hylendid Bwyd Cyngor Gwynedd 2025-26 | 15 |
| 4.5 | Rhaglen Ymyrraeth Safonau Bwyd Cyngor Gwynedd 2025-26 | 17 |
| 4.6 | Ymyrraeth Hylendid Bwyd Cynhyrchiad Cynradd 2025-26 | 17 |
| 4.7 | Ail Ymweliadau Gorfodaeth | 18 |
| 4.8 | Ail Ymweliad Yn Dilyn Cais Am Ail Sgorio'r Sgôr Hylendid Bwyd | 18 |
| 4.9 | Cwynion am fwyd a Cheisiadau am Wasanaeth | 19 |
| 4.10 | Awdurdodau Cynradd / Cartref a Chyngor i Fusnesau | 20 |
| 4.11 | Samplu Bwyd ac Archwiliadau | 20 |
| 4.12 | Ymchwiliadau i Achosion o Salwch ac Afiechydon Heintus yn gysylltiedig â Bwyd | 21 |
| 4.13 | Digwyddiadau Diogelwch Bwyd | 21 |
| 4.14 | Cyswllt â Sefydliadau Eraill | 22 |
| 4.15 | Hyrwyddo Diogelwch Bwyd | 22 |
| 4.16 | Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion | 23 |
| 4.17 | Camau Ffurfiol Diogelwch Bwyd | 23 |
| 4.18 | Busnesau Newydd | 24 |

ymarfer cyfraith bwyd (Cymru) yn ystod 2025-26. Gweler rhan 5.2.

Yn unol ar cod amcangyfrifir y bydd angen cynnal y nifer o ymyraethau a restrir yn ail golofn y tabl isod yn ystod y flwyddyn.

| **Proffil yr Eiddo** | **Nifer yr Eiddo (1/4/25)** | **Amcangyfrif o nifer yr ymyraethau fydd eu hangen yn ystod y flwyddyn i 31/3/26** |
|---|---|---|
| Categori A | 6 | 6 |
| Categori B | 56 | 56 |
| Categori C | 649 | 439 |
| Categori D | 588 | 366 |
| Categori E | 758 | 177 |
| Heb eu graddio | 58 | 318* |
| Tu allan i'r rhaglen | 7 | 7 |
| **CYFANSWM** | **2122** | **1369** |

* Cyfartaledd nifer y busnesau newydd sydd wedi cofrestru dros y tair blynedd diwethaf ydy 260. Mae'r rhif yma wedi ei gynnwys yn yr amcangyfrif o'r eiddo heb eu graddio bydd angen ymyrraeth dros y flwyddyn nesaf. Gweler rhan 4.18 hefyd.

Mae'r amcangyfrif o'r nifer o ymyraethau hefyd yn cynnwys ôl groniad o archwiliadau o 24-25 na gafodd eu cynnal yn amserol. Ar y 31-3-25 roedd 226 o archwiliadau hylendid bwyd dal angen eu cwblhau (mae'r ffigwr yn cynnwys 67 eiddo categori risg C, 110 categori risg D a 42 categori risg E)

Bydd y ffocws yn ystod 25-26 ar gwblhau archwiliadau yn cynnwys:

Eiddo lle fo archwiliadau'n hwyr

Eiddo categori risg A

Busnesau Newydd

Sefydliadau Cymeradwy

Eiddo lle mae cwyn neu bryder wedi ei dderbyn ynghylch ; cwyn am ymarferion hylendid, safon hylendid neu eiddo sy'n gysylltiedig gyda digwyddiad bwyd neu afiechyd heintus.

Wedi cwblhau'r ymyraethau yma bydd y gwasanaeth bwyd a diogelwch yn ail gydio yng ngofynion y cod ymarfer bwyd a chynnal archwiliadau yn unol â chategori risg eiddo / amserlen y cod.

Byddwn hefyd yn ymdrechu i archwilio eiddo tymhorol mewn da bryd, lle fo'n bosib gwneud hynny.

| **Cost** | **Gwariant** |
|---|---|
| Cyflogaeth Staff | £600,989 |
| Materion gweinyddol gan gynwys cyfraniad tuag at ein gwasanaethau cefnogol cyfreithiol. | £70,293 |
| Hyfforddiant | £12,078 |
| Samplu | £4446 |
| Trafeilio / Cynhaliaeth | £218 |
| Pwrcasu offer a gwasanaethau | £7137 |
| Gwir Gost (Net) | £686,355 |

Mae cyfraniadau eraill yn effeithio ar y cyfanswm costau net y gwasanaeth. Er enghraifft, fe wnaeth y Gwasanaeth 'incwm' hylendid bwyd o dros £8800 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Oherwydd y cyfuniad o gynnydd mewn costau ynghyd a chynnydd cyfyngedig mewn cyllid gan y Llywodraeth mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn gorfod cynyddu incwm ac adnabod toriadau er mwyn cwrdd â'u goblygiadau cyllidol. Fel rhan o becyn arbedion mae'r Cyngor wedi penderfynu torri £100,000 o gyllid gwarchod y cyhoedd .O ganlyniad mae un swydd wag wedi ei dorri o strwythur y Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch.

### 5.2 Lefelau Staff Presennol

Ar y 1/4/25 roedd 13 swyddog rheng flaen yn gweithio i'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch. O'r rhain mae 8 yn swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a 5 yn swyddogion cydymffurfiaeth / gorfodaeth. Mae'r holl swyddogion yn cyflawni gwaith diogelwch bwyd, afiechydon heintus ac iechyd a diogelwch.

Mae tri o'r swyddogion cydymffurfiaeth / gorfodaeth yn eistedd cyrsiau academaidd ac nid ydynt wedi eu hawdurdodi i ygymryd a dyletswyddau swyddogol bwyd. Roedd un o'r swyddogion hyn yn flaenorol yn hyfforddai Gwarchod y Cyhoedd gyda'r Gwasanaeth.

Mae dau o'r swyddogion iechyd gydag awdurdodiadau rhannol - nid ydynt eto yn medru cwblhau gwaith atal mewn argyfwng.

Mae 0.4 cyfwerth llawn amser (CLLA) o swydd heb eu llenwi.

Yn ystod y flwyddyn fe fu i unig swyddog safonau masnach Gwynedd adael yr awdurdod. Mae swyddog arall yn y gwasanaeth safonau masnach yn eistedd cymhwyster swyddog safonau masnach ond ni ellir cymhwyso am o leiaf 2 flynedd.

Fe fu'r gwasanaeth yn llwyddiannus gyda cais am swydd hyfforddai gwarchod y cyhoedd dan Gynllun Yfory'r Cyngor. Bydd ceisiadau am y swydd yma yn cael eu gwahodd yn ystod Ebrill 2025.
Fe fu newidiadau strwythurol i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ac o 1/4/25 bydd rheolwr y gwasanaeth bwyd a diogelwch hefyd yn gyfrifol am y gwasanaeth llygredd a dwr preifat. Bydd hyn i bob pwrpas yn haneru'r amser fydd y rheolwr yn medru ei neilltuo tuag at gwaith bwyd. Fel rhan o'r ail strwythuro dyrchafwyd swyddog iechyd yr amgylchedd yn arweinydd tim -bwyd a diogelwch. Bydd rhan o amser yr unigolyn yma yn cael ei ddefnyddio ar gyfer elfennau o waith rheolaethol ar draul gwaith rheng flaen dydd i ddydd.

Mae tabl A isod yn manylu'r CLLA (Cyfwerth a Llawn Amser) sydd wedi ei ddyfarnu ar gyfer gwaith bwyd ac afiechydon heintus ar nifer presennol o staff awdurdodedig (CLLA) sydd ar gael i ymgymryd ar gwaith yn ystod 2025-26.

Mae tabl B isod yn manylu'r CLLA (Cyfwerth a Llawn Amser) sydd wedi ei ddyfarnu ar gyfer gwaith bwyd ac afiechydon heintus ar nifer presennol o staff awdurdodedig (CLLA) sydd ar gael i ymgymryd ar gwaith yn ystod 2025-26.

**Tabl A - Hylendid Bwyd ac Afiechydon Heintus**

| **Swydd** | **CLLA wedi ei ddyfarnu i'r gwasanaeth ar 1/4/25** | **CLLA wedi ei llenwi ar gyfer 25-26** |
|---|---:|---:|
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd | 4 | 3.8 |
| Swyddog Gorfodaeth / Cydymffurfiaeth | 2.5 | 1 |
| Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd | 0.2 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **6.7** | **5** |

**Tabl B- Safonau Bwyd**

| **Swydd** | **CLLA wedi ei ddyfarnu i'r gwasanaeth ar 1/4/25** | **CLLA wedi ei llenwi ar gyfer 25-26** |
|---|---:|---:|
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd | 2.3 | 2.2 |
| Swyddog Gorfodaeth / Cydymffurfiaeth | 1.5 | 0.6 |

Mae’r prif ardaloedd ar gyfer gwelliant / gweithrediad oedd wedi eu hadnabod yng nghynllun gwasanaeth 2024/25 wedi eu rhestru yn y tabl isod ynghyd ar hyn mae’r gwasanaeth wedi ei gyflawni ers hynny i gyfarch y gwelliannau adnabuwyd oedd angen.

| **Ardal Allweddol 2024-25** | **Camau Gweithredu / Canlyniadau** |
|---|---|
| Delio gydag ôl groniad archwiliadau rhaglenedig sy’n hwyr hyd at ac yn cynnwys 31/3/24 | Wedi ei gwblhau |
| Adnabod ac archwilio eiddo tymhorol yn amserol pan fyddent yn masnachu. | Oherwydd diffyg adnodd (yn nhermau swyddogion awdurdodedig) rydym wedi methu cynnal archwiliadau amserol mewn nifer o eiddo tymhorol a fu wedyn gau dros y Gaeaf. Bydd archwiliadau yn cael eu blaenoriaethu yn unol â chategori risg busnes dros Haf 2025. |
| Hyfforddi Swyddogion | Mae tri swyddog yn parhau i eistedd cwrs gradd meistri iechyd yr Amgylchedd ( o bell) a phedwerydd yn dod i ddiwedd cwrs tystysgrif uwch diogelwch bwyd. |
| Cynnal arolwg /adolygiad mewnol (Ffordd Gwynedd) o drefniadau'r gwasanaeth a mabwysiadu / gweithredu unrhyw argymhellion gwella effeithlonrwydd ayb adnabyddir. | Arolwg wedi ei gwblhau. Argymhellion yn deillio ohono yn cynnwys:<br><br>1. Sefydlu trefniadau corfforaethol ar gyfer derbyn a phrosesu taliadau ar y we.<br><br>2. Parhau ac ehangu ar dreial defnydd ffonau symudol / tabledi i gofnodi canlyniadau archwiliadau mewn busnesau. |
| Gwella cydymffurfiaeth gyda gofynion alergau busnesau sy’n paratoi bwyd i fwyta ar yr eiddo ac i ffwrdd o’r eiddo | Yn parhau -cyngor yn cael ei ddarparu yn ystod archwiliadau. |
| Parhau i fynd i’r afael a phroblemau labelu a | Yn parhau- yn cael ei godi yn ystod |

| | |
|---|---|
| chynhwysion anghyfreithlon mewn fferins a diod sy'n cael eu mewnforio a'u gwerthu mewn busnesau'n lleol. | archwiliadau ac wrth ddelio gyda chwynion. |
| Parhau i gefnogi busnesau drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor. | Yn parhau |
| Parhau i addasu i drefniadau masnachu amgen busnesau – oriau agor cyfyngedig, agor ar nosweithiau /penwythnosau yn unig. | Gydag adnodd staff cyfyngedig mae addasu i drefniadau masnachu amgen busnesau yn profi'n anodd. Cofnodwyd 106 o ymweliadau heb fynediad yn ystod 2024-5. |
| Treialu defnydd technoleg gwybodaeth i gofnodi canlyniadau archwiliadau allan yn y maes. | Yn parhau. |

### 7.3 Llwyddiant

Yn ychwanegol i'r gwaith a amlinellir yn Atodiad 1 mae llwyddiannau allweddol y gwasanaeth dros gyfnod y cynllun llynedd yn cynnwys:

- Cafodd archwiliadau rhaglenedig eiddo categori risg A hylendid a safonau bwyd eu cynnal
- Cwblhawyd mwyafrif o'r archwiliadau rhaglenedig hylendid bwyd eiddo categori risg B ac C,
- Cwblhawyd gwaith adweithiol gan gynnwys gwaith gorfodaeth, rheoli peryglon bwyd a delio gyda chwynion bwyd.
- Bu i ôl groniad o archwiliadau diogelwch bwyd o'r flwyddyn flaenorol gael eu delio gyda.
- Cymerodd y gwasanaeth ran mewn ymgyrchoedd yr ASB gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i ledaenu negeseuon diogelwch bwyd.
- Fe fu'r gwasanaeth yn llwyddiannus mewn cais i gael hyfforddai dan Gynllun Yfory'r Cyngor – ymdrech recriwtio ar y gweill.
- Fe fu i swyddogion gwrdd â gofynion hyfforddiant / cynnal cymhwysedd drwy fynychu cyrsiau ar lein ac wyneb i wyneb.
- Cwblhawyd rhaglen samplu hylendid bwyd yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol.
- Cwblhau rhaglen samplu safonau bwyd fel rhan o brosiect cydweithio Grŵp Bwyd ac Afiechydon Heintus Gogledd Cymru.

### 7.4 Meysydd i’w Gwella 2025-26

Adnabuwyd yr ardaloedd canlynol ar gyfer ymdrech penodol eleni:

- Yn ystod Mis Hydrefn 2024 fe fu i’r Asiantaeth Safonau gynnal arolwg o ddarpariaeth gorfodaeth cyfraith bwyd Cyngor Gwynedd. Yn dilyn yr arolwg derbyniwyd eu casgliadau oedd yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer sicrhau ein cydymffurfiaeth gyda gofynion y cod ymarfer cyfraith bwyd. Bydd angen mynd i’r afael ar argymhellion yn ystod y flwyddyn.
- Gweithredu argymhellion arolwg Ffordd Gwynedd o’r gwasanaeth.
- Parhau i gynorthwyo busnesau drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor.
- Parhau i addasu i drefniadau masnachu amgen busnesau – oriau agor cyfyngedig, agor ar nosweithiau /penwythnosau yn unig.
- Treialu defnydd technoleg gwybodaeth i gofnodi canlyniadau archwiliadau allan yn y maes.

### 7.5 Ffactorau sy’n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod 2025-26

Ffactorau sy’n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth:

a) Diffyg adnodd yn nhermau nifer y staff cymwysedig sydd ar gael i gwblhau gwaith diogelwch bwyd.

Oherwydd y problemau adnodd ar ôl groniad o archwiliadau rhaglenedig sy’n hwyr o’r flwyddyn flaenorol 2024 / 25 (226 archwiliad hylendid, 166 archwiliad safonau bwyd) mae’n anhebygol y byddwn yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion y cod ymarfer bwyd eleni.

Bydd gwaith yn cael ei flaenoriaethu yn unol â risg gyda ffocws ar y canlynol:

Gwaith gorfodaeth ymatebol
Rheolaeth ymatebol o ddigwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd.
Ymchwil a rheolaeth ymatebol mewn perthynas â chwynion yn ymwneud a bwyd, eiddo bwyd ac ymarferion.
Cwblhau archwiliadau hwyr oedd wedi ei rhaglennu i’w cwblhau hyd at ac yn cynnwys 31/3/25
Cwblhau archwiliadau rhaglenedig o eiddo categori risg A hylendid a safonau.
Archwilio busnesau newydd

Cwblhau archwiliadau mewn eiddo categori risg B ac C hylendid ynghyd ac archwiliadau safonau o'r un eiddo os ydynt wedi eu rhaglennu neu'n ofynnol oddi fewn y 12 mis nesaf.
Cynnal archwiliadau rhaglenedig o sefydliadau cymeradwy.

Er mwyn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion y cod rydym wedi rhoi trefniadau mewn lle dros y ddwy flynedd nesaf i geisio sefydlu mwy o adnodd drwy

i) Buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant staff
ii) Buddsoddi mewn Technoleg Gwybodaeth - cofnodi gwaith allan yn y maes. .

Mae'n anodd gosod dyddiad targed ar gyfer pryd fydd y Gwasanaeth yn debygol o gwrdd â gofynion y cod ond rhagdybir na fydd hyn yn bosib am o leiaf 2 flynedd fel mae pethau'n sefyll.

b) Cael mynediad i eiddo. Mae busnesau yn lleihau oriau masnachu neu agor ar sail tymhorol yn unig. O ganlyniad mae'r llwyth gwaith archwiliadau yn uwch dros fisoedd yr Haf. Mae archwiliadau tu allan i oriau swyddfa arferol yn debygol o gynyddu hefyd.

c) Mae nifer o fusnesau bwyd newydd sy'n cofrestru gyda'r Cyngor yn parhau i fod yn gymharol uchel. Yn anffodus nid yw nifer o'r busnesau yn gynaliadwy ac maent yn cau gyda busnesau eraill yn agor yn eu lle. Mae hyn yn creu pwysau sylweddol ychwanegol ar y gwasanaeth gan fod angen archwilio busnesau newydd a ystyrir i fod yn risg uchel oddi fewn 28 diwrnod iddynt agor a rhai risg is oddi fewn i 3 mis o ddechrau masnachu.

Ch) Mae gofynion trwyddedu ar gyfer gweithgareddau pigo croen yn weithredol yng Nghymru. Fe fydd mwyafrif o'r swyddogion sy'n cwblhau gwaith diogelwch bwyd wedi eu hawdurdodi i orfodi gofynion y Ddeddf Iechyd Cyhoeddus a rheoliadau sy'n manylu'r gofynion hyn. Bydd swyddogion felly yn gorfod neilltuo rhan o'u hamser ar gyfer gwaith iechyd cyhoeddus /trwyddedu yn hytrach na gwaith diogelwch bwyd.

d) Defnydd swyddogion cymwys i hyfforddi swyddogion newydd. Bydd y gofyn yma yn golygu fod llai o amser iddynt gwblhau rheolaethau swyddogol.

dd) Mae'r model cynnal archwiliadau safonau bwyd yn weithredol yn Lloegr . Gall fo ddatblygiadau pellach mewn perthynas â mabwysiadu'r model yng Nghymru.

